
Y Gronfa Radio Cymunedol

Nodiadau cyfarwyddyd

NODIADAU CYFARWYDDYD:

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Y Gronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa")	2
3. Y broses ymgeisio a dyfarnu	7

1. Trosolwg

Mae'r Gronfa Radio Cymunedol yn helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom, yn darlledu ar AM, FM neu drwy drwydded C-DSP ar amblecs radio digidol.

Dylai ymgeiswyr ddarllen y cyfarwyddyd yma yn llawn cyn cyflwyno cais.

Gair am y ddogfen hon

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn ar gyfer trwyddedeion sy'n gwneud cais ar gyfer y Gronfa Radio Cymunedol yn 2020-21. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- pwrpas y Gronfa;
- meini prawf cymhwyso; ac
- y broses ymgeisio a dyfarnu.

Yn 2020-21, darparwyd grantiau fel arian parod brys i gefnogi gorsafoedd sy'n wynebu anhawster ariannol difrifol oherwydd yr achosion o'r Coronafeirws. **Ar gyfer 2021-22, bydd y Gronfa yn dychwelyd i gefnogi costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig Ofcom, fel y nodir yn y cyfarwyddyd hwn.**

2. Y Gronfa Radio Cymunedol (“y Gronfa”)

Cefndir

- 2.1 Mae'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (“DCMS”) wedi gofyn i Ofcom weinyddu'r Gronfa. I gael rhagor o wybodaeth am Radio Cymunedol a'r Gronfa, ewch i [dudalen y Gronfa](#) ar ein gwefan.
- 2.2 Ar gyfer 2020-21, ariannodd DCM grantiau i'w darparu fel cyllid mewn argyfwng i gefnogi gorsafoedd na fyddai'n gallu parhau i weithredu fel arall, o ganlyniad i'r Coronafeirws. Ar gyfer 2021-22 mae DCMS wedi cynghori y bydd y Gronfa'n dychwelyd i gefnogi costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol trwyddedig fel a nodir isod.
- 2.3 Mae DCMS hefyd wedi cynghori rhwng 2021-22, bydd gorsafoedd Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (“C-DSP”) yn gymwys ar gyfer grantiau, ochr yn ochr â'r gorsafoedd radio cymunedol analog, os yw'r orsaf yn darlledu ar amblecs radio digidol ar ddyddiad eu cais.

Ar gyfer beth mae'r Gronfa?

- 2.4 Mae'r Gronfa wedi cael ei chreu i roi grantiau i helpu i dalu am gostau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom. Mae'r gweithrediadau craidd hyn yn cynnwys:
 - rheoli
 - codi arian i gefnogi'r orsaf (e.e. grantiau, ariannu cymunedol)
 - gweinyddu
 - rheoli cyllid ac adrodd
 - ymgysylltu cymunedol
 - trefnu a chefnogi gwirfoddolwyr
- 2.5 Gwneir grantiau fel un cyfandaliad a rhaid eu gwario o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Grant, sef 14 mis fel arfer. Mae grantiau ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol sy'n darlledu ar hyn o bryd.

Beth NA fydd y Gronfa yn talu amdano?

- 2.5 Ni roddir grantiau ar gyfer y canlynol:
 - Gwariant/offer cyfalaf (ar gyfer y swyddfa, stiwdio, trosglwyddo ac ati)
 - Costau cerbydau
 - Treuliau gwirfoddolwyr
 - Cost atgyweirio, adeiladu neu gynnal a chadw adeiladau
 - Costau rhaglennu neu farchnata

- Biliau cyfleustodau
- Taliadau rhent a/neu forgais
- Ffioedd trwydded neu ffioedd hawlfraint (fel PPL/PRS neu ffioedd meddalwedd)
- Ffioedd sy'n daladwy i Ofcom (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffioedd ymgeisio a thrwydded)
- Grantiau ôl-weithredol h.y. i dalu am wariant a dynnwyd eisoes
- Costau sy'n gysylltiedig â lansio gorsaf radio
- Costau sy'n ymwneud â math arall o drwydded a ddelir gan y trwyddedai h.y. lluosrif radio digidol ar raddfa fach
- Cyllid ar gyfer ad-dalu benthyciadau
- Ffioedd cyfarwyddwyr cwmni
- Costau a ad-delir neu i'w had-dalu drwy gyllid gan awdurdodau cyhoeddus eraill neu o'r sector preifat
- Taliadau llog (gan gynnwys taliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi cyllid)
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau

Am faint gallwn ni wneud cais?

- 2.6 Nid oes terfyn ar faint y gellir gwneud cais amdano. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried datganiadau Panel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom ar rowndiau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys rhestr o grantiau blaenorol, y cyfartaledd a roddir yn y cylch penodol, a 'materion o nodiadau sy'n codi o gyfarfod y Panel'. Mae'r olaf yn cynnwys cyngor i ymgeiswyr ar yr hyn y mae Panel y Gronfa Radio Cymunedol (y "Panel") yn chwilio amdano yn ogystal â phroblemau cyffredin gyda cheisiadau.
- 2.7 Mae'r datganiadau ar [dudalen Cronfa Radio Cymunedol](#) ein gwefan o dan y pennawd 'dyfarniad blaenorol o grantiau' yma. Dylai ymgeiswyr roi sylw arbennig i ddatganiadau o 2019-20 neu cyn hynny. Noder nad yw'r datganiadau a ddarparwyd ar gyfer y tair cylch o gyllid brys yn 2020-21 yn berthnasol o ystyried bod diben y cyllid yn ystod y cyfnod hwn yn benodol i amgylchiadau'r cyfnod hwnnw.
- 2.8 Bydd angen i ymgeiswyr gyfiawnhau pam maen nhw angen y swm maen nhw'n gwneud cais amdano, ac esbonio beth fyddent yn ei wneud os na fyddent yn cael cyfanswm y cyllid y gofynnir amdano.
- 2.9 Wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynir, bydd y Panel yn ystyried hanes cydymffurfio trwyddedeion sy'n gwneud cais am gyllid. O'r herwydd, mae cwestiwn 2.14 yn rhoi cyfle i'r trwyddedai ddarparu unrhyw sylw a allai fod ganddo o ran ei hanes o gydymffurfio ag amodau ei drwydded(au) darlledu a thelegraffiaeth ddi-wifr, yn ogystal â'i gydymffurfiaeth ag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â grantiau blaenorol o'r Gronfa Radio Cymunedol.

Meini Prawf Cymhwyso Ceisiadau

- 2.10 Dim ond i drwyddedeion radio cymunedol (“Trwyddedai”) mae modd rhoi grantiau. (Nid yw gorsafoedd sydd wedi cael eu trwyddedu o dan Orchymyn Radio Cymunedol (Guernsey) 2013 yn gymwys i gael cyllid).
- 2.11 Mae gorsafoedd C-DSP, sydd wedi'u trwyddedu o dan Orchymyn Radio Amlblecs a Radio Digidol Cymunedol 2019 ar raddfa fach, bellach yn gymwys ar gyfer y Gronfa yn ogystal â gorsafoedd sydd wedi'u trwyddedu i ddarlledu ar AC a FM.
- 2.12 Rhaid i ymgeiswyr fod yn darlledu erbyn **dyddiad eu cais** i'r cais gael ei ystyried gan y Panel. Dim ond i orsafoedd sydd wedi lansio y gellir rhoi taliadau.
- 2.13 Ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, dylai fod o leiaf bymtheg mis yn weddill ar y drwydded o'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Os oes llai na phymtheg mis yn weddill ar y drwydded, rhaid i'r trwyddedai fod wedi cyflwyno cais am estyniad i Ofcom erbyn y dyddiad cau. Nid oes gan drwyddedau C-DSP ddyddiad gorffen. Yn y naill achos neu'r llall, rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau barhau i ddarlledu am hyd llawn deiliadaeth y grant os bydd cais yn llwyddiannus. Gweler y Cytundeb Grant, a gyhoeddir ar wefan Ofcom a chaiff ei anfon at ymgeiswyr llwyddiannus.
- 2.14 Dim ond drwy'r cwmni dal trwydded y gellir cyflwyno ceisiadau a'u dyfarnu iddynt. Rhaid talu'r grant i gyfrif banc y cwmni dal trwydded.
- 2.15 Fel arfer, bydd dwy rownd o ddyfarniadau grant ym mhob blwyddyn ariannol. Fel arfer, os yw Trwydded wedi derbyn grant ar gyfer gorsaf benodol mewn un cylch ariannu, ni fydd yr orsaf honno'n cael ei hystyried ar gyfer grant pellach o dan gylch arall yn yr un flwyddyn ariannol. Gall y trwyddedai ar gyfer gorsaf o'r fath wneud cais yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol. Rhaid i drwyddedau sydd wedi cael grant mewn cylch ariannu blaenorol adrodd ar wariant y grant hwnnw cyn cyflwyno cais newydd. Mae'r ffurflen adroddiad grant ar [dudalen Cronfa Radio Cymunedol](#) ar ein gwefan.
- 2.16 Gellir cyflwyno ceisiadau ar y cyd gan drwyddedeion dau drwydded neu fwy, er enghraifft i gyd-ariannu swydd a rennir. Fodd bynnag, dylid enwebu un daliwr trwydded i reoli'r grant a chaiff ei dalu i'r cwmni hwnnw (ac ni chaiff ei rannu rhwng dau neu fwy).

Trwyddedeion sydd â dau drwydded radio cymunedol neu ragor

- 2.17 Gall rhai trwyddedeion fod â thrwydded radio gymunedol analog ac un neu fwy o drwyddedau C-DSP, neu drwyddedau C-DSP lluosog. Dim ond un cais i'r Gronfa y dylai'r trwyddedeion hyn ei wneud ond dylai fod yn glir yn eu cais pa drwydded(au) y mae'r cyllid yn berthnasol iddynt.
- 2.18 Yn eu cais, dylai trwyddedeion fod yn glir iawn ynghylch sut y byddai darpar grant yn cael ei ddefnyddio ar draws y trwyddedau sydd ganddynt. Er enghraifft, pe bai cais am grant i gefnogi rôl codi arian ar draws trwydded radio gymunedol analog a thrwydded C-DSP, dylai'r ymgeisydd egluro yn y cais y manteision a fyddai'n cael eu rhoi ar draws y ddau wasanaeth trwyddedig a sut y byddai'r rôl yn cefnogi'r ddau wasanaeth yn effeithiol.

- 2.19 Yn yr un modd, oherwydd bydd yn ofynnol i drwyddedeion sy'n derbyn grant adrodd ar sut y cafodd ei wario hanner ffordd drwy ddeiliadaeth y grant ac ar ôl i'r daliadaeth ddod i ben, byddai angen i'r adroddiadau hyn ddangos faint o grant sydd wedi'i rannu ar draws y trwyddedau a ddelir gan geisydd, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd wrth wneud cais. Dim ond at ddiben talu costau y dyfarnwyd y grant hwnnw ar eu cyfer y gellir defnyddio grant, fel y nodir yn y cytundeb grant, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a lansiwyd yn ystod deiliadaeth y grant.
- 2.20 Fodd bynnag, mae'n bwysig ailadrodd yn yr adran hon na ellir defnyddio cyllid i gefnogi lansio gwasanaeth C-DSP newydd. Mae hyn yn dal yn wir hyd yn oed lle mai dim ond rhan o'r cyllid a fyddai'n cael ei ddefnyddio at y diben hwn a gweddill yr arian a ddefnyddir yn unol â'r dibenion a restrir uchod.
- 2.21 Dim ond pan fo'r grant yn ymwneud â'u trwydded radio gymunedol analog neu ddigidol y mae trwyddedai sy'n cyd-ddarlledu eu gwasanaeth radio cymunedol gan ddefnyddio trwydded DSP yn gymwys. Ni fydd ceisiadau sy'n ymwneud â thrwyddedau DSP nad ydynt yn drwyddedau C-DSP yn gymwys.
- 2.22 Os oes gennych gwestiynau penodol am y cyfyngiadau sy'n berthnasol i drwyddedau sydd â dwy drwydded radio gymunedol neu fwy, mae'n bwysig eich bod yn gofyn am eglurhad gan dîm y Gronfa Radio Cymunedol cyn i chi gyflwyno'ch cais, cyn y dyddiad cau, drwy'r manylion cyswllt a nodir isod.

Gorsafoedd cymunedol yng Nghymru

- 2.23 Yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011¹, pan fydd Ofcom yn gwneud penderfyniadau am ddyfarnu grant, rhaid iddo hefyd ystyried y canlynol:
- a) pa effeithiau, os o gwbl (ac a fydden nhw'n gadarnhaol neu'n negyddol), byddai dyfarnu'r grant yn eu cael ar-
 - i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - ii) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg;
 - b) sut byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol, ar-
 - i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - ii) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg; a

¹ Mae'r [Hysbysiad](#) hwn ar gael ar ein gwefan. [Mae mwy o wybodaeth am Ofcom yng Nghymru](#) hefyd ar gael.

- c) sut byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn iddo beidio â chael effeithiau andwyol neu iddo beidio â chael rhagor o effeithiau andwyol ar-
 - i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - ii) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
- 2.24 Yn unol â hynny, er mwyn helpu'r Panel i ystyried ceisiadau, bydd gofyn i unrhyw ymgeiswyr ar ran gorsafoedd yng Nghymru ddarparu gwybodaeth yn eu cais am effeithiau grant ar y Gymraeg, fel y nodir uchod.
- 2.25 Mae modd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.

3. Y broses ymgeisio a dyfarnu

Gwybodaeth am wneud cais

- 3.1 Bydd y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau ym mhob rownd cyllido yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom.
- 3.2 Ni fydd ceisiadau a dogfennau ategol a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried. Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol, ni fydd Ofcom yn gallu mynd ar drywydd ceisiadau anghyflawn.²

Sut mae gwneud cais

- 3.3 Llwythwch y ffurflen gais i lawr o wefan Ofcom. Cewch gyflwyno cais Cymraeg neu Saesneg ac mae ffurflenni cais yn y naill iaith a'r llall ar gael ar y wefan. Dylai ceisiadau ac unrhyw ddogfennau ategol priodol gyrraedd Ofcom erbyn 5pm ar y dyddiad cau a hysbysebir.
- 3.4 Rydym yn argymhell eich bod yn cyflwyno'ch cais dros e-bost i communityradiofund@ofcom.org.uk. Dylai'r ffurflen gais a'r dogfennau ategol fod ar fformat Word, RTF neu Excel, yn hytrach na PDF. **Ni allwn dderbyn ebyst sydd ag atodiadau html ac ni fydd unrhyw ebyst sydd â ffeiliau html yn ein cyrraedd.** Ni all ein system e-bost dderbyn negeseuon e-bost sydd ag atodiadau sy'n fwy na 10 Megabeit, felly os yw'r holl ddogfennau yn fwy na hyn gyda'i gilydd, dylid anfon unrhyw ddogfennau ategol mewn e-bost ar wahân. Cysylltwch â'r Tîm dros e-bost cyn diwrnod y dyddiad cau os cewch chi unrhyw broblemau.
- 3.5 Os oes rheswm cymhellol pam na allwch gyflwyno'r ffurflen gais a/neu'r dogfennau ategol drwy e-bost, rhaid i chi gysylltu â thîm y Gronfa Radio Cymunedol o leiaf wythnos cyn dymuno cyflwyno'r cais i drafod hyn ac o leiaf wythnos cyn unrhyw ddyddiad cau.
- 3.6 I gysylltu â thîm y Gronfa Radio Cymunedol, ffoniwch: 0207 981 3002, neu e-bostiwch: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â'r tîm dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl.

² Mae hyn yn ddibynnol ar baragraff 3.17 y cyfarwyddyd hwn.

Cwblhau'r ffurflen gais

- 3.7 Mae'r Panel yn dibynnu ar y ffurflen gais er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant. Felly, mae'n bwysig bod y ffurflen gais yn ddigon manwl fel y gall y Panel ddeall yr orsaf a'r rhesymau pam y mae'n ceisio cael grant.
- 3.8 Dylech ddarparu eich manylion cyswllt ar dudalen glawr y ffurflen. Er mwyn sicrhau bod rhywun sydd â'r awdurdod priodol yn derbyn y Cytundeb Grant i lofnodi, rydym yn gofyn am wybodaeth am gyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni neu yn achos unrhyw sefydliad arall y person perthnasol ag awdurdod, ar dudalen gyflenwi'r ffurflen gais.
- 3.9 Mae cwestiynau 2.1-2.3 yn gofyn am enw eich cwmni a rhif cwmni (fel y caiff ei gadw gyda Thŷ'r Cwmnïau), lle bo hynny'n berthnasol, a rhif trwydded, enw a lleoliad yr orsaf(oedd) yr hoffech iddi/iddynt elwa o'r grant, os caiff ei ddyfarnu. Dylech nodi **cyfanswm** y grant yr ydych yn gwneud cais amdano yng nghwestiwn 2.4.
- 3.10 Wrth ateb cwestiwn 2.5, nodwch ddiben ac amcanion pob gorsaf yr hoffech iddi elwa o'r grant. Mae'r Panel am ddeall yr hyn a wnewch, pwy yr ydych yn ei wasanaethu, a'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac yn ceisio ei gyflawni yn eich cymuned.
- 3.11 Byddwch yn glir ac yn gryno ynglŷn â'r hyn y defnyddir yr arian ar ei gyfer yng nghwestiwn 2.6-2.8. Os ydych yn gwneud cais am grant at fwy nag un diben neu orsaf, sicrhewch eich bod yn glir ynghylch pa ddiben a/neu orsaf y mae eich atebion yn ymwneud â nhw. Rhowch wybodaeth am ddiben ac amcanion y grant, a'r amserlen ar gyfer gwario'r grant. Os yw'r cyllid a geisir ar gyfer staff, dylid darparu disgrifiad(au) swydd a dadansoddiad ariannol rhwng cyflog a chyflogwyr o ran costau (fel yswiriant gwladol y cyflogwr, pensiwn a ffi reoli). Defnyddir y cwestiynau hyn i ddiffinio diben y grant fel a nodir yn y Cytundeb Grant.
- 3.12 Er mwyn dangos pam mae angen y grant, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn amgylchiadau'r orsaf, megis newidiadau i sefyllfa ariannol yr orsaf nad ydynt efallai'n amlwg yn y cyfrifon cyhoeddedig diweddaraf.
- 3.13 Gellir cyflwyno cais at fwy nag un diben (dylid cynnwys manylion ar yr un ffurflen). Os nodir mwy nag un diben grant, dylai Trwyddedeion nodi blaenoriaeth pob un drwy eu rhestru yn nhrefn pwysigrwydd. Caiff y Panel roi grant i ymgeisydd i ariannu mwy nag un diben, ond mae'r flaenoriaeth gymharol y mae'r Panel yn ei rhoi i unrhyw ddiben yn gyfan gwbl ôl disgrisiwn y Panel.
- 3.14 Hefyd, mae arnom angen gwybodaeth gyllidebol ac ariannol yr orsaf i'n helpu i ddeall anghenion y Drwydded. Ar gyfer gorsafoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, darparwch yr wybodaeth ychwanegol uchod sy'n ymwneud ag effeithiau grant ar y Gymraeg.
- 3.15 Wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynir, bydd y Panel yn rhoi ystyriaeth i hanes cydymffurfio'r trwyddedeion sy'n ymgeisio am gyllid. Gan hynny, mae cwestiwn 2.14 yn rhoi cyfle i'r trwyddedai ddarparu unrhyw sylw sydd ganddo ynglŷn â'i hanes o gydymffurfio â rhwymedigaethau ac Amodau eu trwydded.

- 3.16 Dim ond y canlynol y gall gwybodaeth ychwanegol a gyflwynir eu cynnwys: disgrifiadau swydd, manylebau person, cynllun gwaith, cyllideb weithredu, cyfrifon cwmni (neu gyfwerth), neu adroddiad grant.
- 3.17 Os bydd gennym unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth a dderbynnir, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i'r Trwyddedai am eglurhad. Ni ellir cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar ôl y dyddiad cau ar wahân i'r hyn y gofynnwyd amdano gan Ofcom (ac eithrio newid manylion cyswllt y Trwyddedai).
- 3.18 Bydd ceisiadau i'r Gronfa yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu cyhoeddi.
- 3.19 Wrth gwblhau'r ceisiadau a gyflwynir, bydd y Panel yn rhoi ystyriaeth i hanes cydymffurfio'r trwyddedeion sy'n ymgeisio am gyllid. Gan hynny, mae cwestiwn 2.14 yn rhoi cyfle i'r trwyddedai ddarparu unrhyw sylw sydd ganddo ynglŷn â'i hanes o gydymffurfio â rhwymedigaethau ac Amodau eu trwydded(au) darlledu a telegraffiaeth ddiwifr, yn ogystal â'i gydymffurfiaid ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw grantiau blaenorol gan y Gronfa Radio Cymunedol.
- 3.20 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni dros y ffôn: 0207 981 3002, neu gyrrwch e-bost i: communityradiofund@ofcom.org.uk. Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn, bydd angen i chi adael neges llais a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl.

Penderfyniadau grant

- 3.21 Bydd yr holl geisiadau'n cael eu hystyried gan Banel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom. Mae penderfyniadau'r Panel yn derfynol. Mae [rhagor o wybodaeth am y Panel](#) ar ein gwefan.
- 3.22 Byddwn yn hysbysu Trwyddedeion am ganlyniad y cylch dyfarnu ceisiadau. Bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon at y cyswllt a enwir ar y ffurflen gais. Bydd adborth cyffredinol ar y rhesymau pam y bu ceisiadau'n aflwyddiannus yn cael ei gyhoeddi mewn datganiad am y dyfarniadau.
- 3.23 Bydd penderfyniadau ar ddyfarniadau yn cael eu cyhoeddi drwy wefan Ofcom. Cyhoeddir derbynnydd y grant, swm y dyfarniad a diben y grant.

Beth sy'n digwydd nesaf?

- 3.24 Mae grant yn amodol ar y Trwyddedai yn llofnodi Cytundeb Grant Cronfa Radio Cymunedol ("Cytundeb Grant") a fydd yn cael ei anfon **trwy e-bost** (neu ddull eraill y cytunwyd arno gyda'r ymgeisydd) at y trwyddedai ynghyd â chais am fanylion banc.³ Bydd y Cytundeb Grant yn cadarnhau bod y Trwyddedai'n derbyn y grant ar y sail y bydd at y diben a ddisgrifir yn yr Atodiad i'r Cytundeb Grant, ac yn unol â'r holl amodau a nodir yn y Cytundeb Grant. I gael gwybodaeth am gyfrifoldebau a thelerau eraill y grant, gweler y [templed Cytundeb Grant](#), a gyhoeddir ar wefan Ofcom.

³ Byddwn yn trafod gydag ymgeiswyr trwy'r post post sut i ymdrin â hyn.

- 3.25 Fel arfer rydym yn defnyddio Adobe Sign i lofnodi'r Cytundeb Grant. Dim ond porwr gwe a chyfeiriad e-bost fydd ei angen ar y trwyddedai i ddefnyddio hwn. Bydd cyfarwyddiadau ar sut y bydd hyn yn gweithio yn cael eu nodi yn yr e-bost sy'n rhoi gwybod i drwyddedeion am ganlyniad y cylch dyfarnu ceisiadau.
- 3.26 Os dyfernir grant iddo, bydd yn ofynnol i'r Trwyddedai ddefnyddio'r grant o fewn cyfnod penodedig (a nodir yn y Cytundeb Grant).
- 3.27 Ar ôl i'r Cytundeb Grant wedi'i gwblhau a'r ffurflen manylion banc gael eu dychwelyd i dîm y Gronfa Radio Cymunedol, dylid gwneud trefniadau i'r grant gael ei drosglwyddo trwy BACS i gyfrif banc y trwyddedai.
- 3.28 Mae'n rhaid talu grantiau yn y flwyddyn ariannol y dyfernir y dyfarniad ynddynt.
- 3.29 Bydd yn ofynnol i drwyddedeion sy'n derbyn grant adrodd ar sut y mae wedi cael ei wario hanner ffordd drwy ddaliadaeth y grant, ar ôl i'r ddaliadaeth ddod i ben, ac (os ydych yn gwneud cais am grant pellach o fewn daliadaeth y grant presennol) gydag unrhyw gais am grant yn y dyfodol. Os na wneir adroddiad boddhaol, mae'n bosib y bydd angen ad-dalu'r grant i Ofcom, na fydd fel arfer yn ystyried gwneud grant pellach i'r trwyddedai.
- 3.30 Os nad yw grant wedi cael ei wario yn unol â'r diben y cytunwyd arno, neu os nad yw trwyddedai wedi cydymffurfio ag amodau ariannu eraill, mae'n bosib y bydd angen ad-dalu'r grant i Ofcom, na fydd fel arfer yn ystyried gwneud grant pellach i'r trwyddedai. Ni chaniateir newidiadau dilynol i ddiben y grant unwaith y bydd y Cytundeb Grant wedi'i lofnodi.

Gwybodaeth ychwanegol

- 3.31 Mae Ofcom yn disgwyl i drwyddedeion hysbysu eu cymuned am weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa, e.e. trwy gyhoeddi datganiad ar eu gwefan neu drwy gyhoeddiadau ar yr awyr.
- 3.32 Gall diben a chwmpas grantiau gan y Gronfa amrywio o flwyddyn i flwyddyn a gellir amrywio'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn unol â hynny. Mae'n bosib y bydd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn newid yn y dyfodol. Cynghorir ymgeiswyr i wirio gwefan Ofcom i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r Nodiadau Cyfarwyddyd a'r ffurflen gais.

Diogelu Data

- 3.33 Rydym yn gofyn am yr wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen hon er mwyn cyflawni ein dyletswyddau trwyddedu o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Gweler [Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol](#) Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.